| Cyfenw | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| Enwau Eraill | | 0 |

# TGAU – NEWYDD

3300N10-1

S17-3300N10-1

# MATHEMATEG
## UNED 1: HEB GYFRIFIANNELL
## HAEN SYLFAENOL

DYDD MAWRTH, 13 MEHEFIN 2017 – BORE

1 awr 30 munud

3300N101
01

### DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Ni chewch ddefnyddio cyfrifiannell yn yr arholiad hwn.

Efallai bydd angen pren mesur, onglydd a chwmpas.

### CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Defnyddiwch inc neu feiro du. Peidiwch â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Cewch ddefnyddio pensil ar gyfer graffiau a diagramau yn unig.

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch **bob** cwestiwn yn y lleoedd gwag priodol.

Os nad oes digon o le, defnyddiwch y dudalen barhad yng nghefn y llyfryn, gan wneud yn siŵr eich bod yn rhoi'r rhif cywir ar y cwestiwn/cwestiynau.

Cymerwch $\pi$ fel 3·14.

### GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dylech roi manylion eich dull datrys os yw'n briodol.

Nid yw'r diagramau wedi'u lluniadu wrth raddfa os nad yw'n cael ei nodi.

Ni fydd atebion lluniadu wrth raddfa yn dderbyniol os oes gofyn i chi gyfrifo.

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

Yng nghwestiwn **10**, bydd ansawdd eich trefnu, cyfathrebu a chywirdeb ieithyddol a mathemategol wrth ysgrifennu yn cael ei ystyried.

| I'r Arholwr yn unig | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn** | **Marc Uchaf** | **Marc yr Arholwr** |
| **1.** | **5** | |
| **2.** | **2** | |
| **3.** | **2** | |
| **4.** | **2** | |
| **5.** | **5** | |
| **6.** | **4** | |
| **7.** | **3** | |
| **8.** | **2** | |
| **9.** | **3** | |
| **10.** | **5** | |
| **11.** | **4** | |
| **12.** | **3** | |
| **13.** | **2** | |
| **14.** | **3** | |
| **15.** | **2** | |
| **16.** | **2** | |
| **17.** | **6** | |
| **18.** | **5** | |
| **19.** | **5** | |
| **Cyfanswm** | **65** | |

JUN173300N10101

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

CJ*(S17-3300N10-1)

## Rhestr Fformiwlâu – Haen Sylfaenol

**Arwynebedd trapesiwm =** $\frac{1}{2}(a + b)h$





© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**1.** *(a)* Ysgrifennwch y rhif pum deg mil a phedwar mewn ffigurau. [1]

..............................................................................................................................................................

*(b)* Cyfrifwch £7.20 wedi'i rannu â 9.

Ysgrifennwch eich ateb mewn ceiniogau. [2]

..............................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................

Ateb: .................................................... ceiniog

*(c)* Mae Mair yn meddwl am ddau rif cyfan.
Mae hi'n lluosi'r ddau rif â'i gilydd, a'r ateb yw 20.
Mae hi'n adio'r ddau rif at ei gilydd, a'r ateb yw 9.
Beth yw'r ddau rif mae Mair yn meddwl amdanyn nhw? [2]

..............................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................

Y rhifau yw ...................................... a ......................................

3300N101
03



© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**2.**



Mae'r siâp uchod wedi cael ei luniadu ar grid sgwariau centimetr.
Amcangyfrifwch arwynebedd y siâp. [2]

..........

..........

..........

..........

Arwynebedd y siâp = .................................. $cm^2$



© WJEC CBAC Cyf. 

Arholwr yn unig

**3.** Tywyllwch y nifer lleiaf o sgwariau mae ei angen i wneud y llinell *AB* yn llinell cymesuredd. [2]




3300N101
05

Arholwr yn unig

**4.** *(a)*




Pa fath o ongl yw $x$ yn y diagram uchod?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb. [1]

ongl sgwâr    ongl atblyg    ongl aflem    ongl lem

*(b)*



Beth yw'r enw arbennig ar y siâp sydd i'w weld uchod?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb. [1]

sffêr    ciwb    côn    ciwboid    silindr



© WJEC CBAC Cyf. 

Arholwr yn unig

**5.** Pedwar tîm rygbi yng Nghymru yw'r Gleision, y Dreigiau, y Gweilch a'r Scarlets.

Mae Aled yn gofyn i grŵp o 170 o ddisgyblion pa un o'r 4 tîm hyn yw eu hoff dîm. Yna mae'n llunio'r siart bar hwn i ddangos y data mae wedi'u casglu.




*(a)* Mae Aled yn gwybod bod 50 o'r disgyblion hyn wedi dweud mai'r Gleision yw eu hoff dîm. Llenwch y tabl isod. [3]

..............................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................

| **Hoff dîm rygbi** | **Nifer y disgyblion** |
|---|---|
| Gleision | 50 |
| Dreigiau | |
| Gweilch | |
| Scarlets | |

*(b)* Mae disgybl yn cael ei ddewis ar hap o'r grŵp hwn. Beth yw'r tebygolrwydd mai hoff dîm y disgybl hwn yw'r Gleision? [2]

..............................................................................................................................................................

..............................................................................................................................................................

3300N101 07

Arholwr yn unig

**6.** *(a)* Mae'r pwyntiau *A* a *B* yn cael eu plotio ar y grid isod.
Ysgrifennwch gyfesurynnau *A* a *B*. [2]

*A* ( ...................... , ...................... ) *B* ( ...................... , ...................... )

*(b)* Y pwynt *C* yw canolbwynt y llinell *AB*.
Darganfyddwch gyfesurynnau *C*. [2]

*C* ( ...................... , ...................... )






© WJEC CBAC Cyf. (3300N10-1)

Arholwr yn unig

**7.** *(a)* Datryswch yr hafaliadau hyn.

(i) $7x = 56$ [1]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

(ii) $y + 19 = 83$ [1]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

*(b)* Symleiddiwch y mynegiad $12k - 15k + 7k$. [1]

..............................................................................................................................................

**8.** *(a)* Ysgrifennwch beth yw gwerth $9^2$. [1]

..............................................................................................................................................

*(b)* Cyfrifwch $1{\cdot}2 \times 70$. [1]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

Arholwr yn unig

**9.** Defnyddiwch bren mesur ac onglydd i wneud lluniad manwl gywir o'r triongl hwn. [3]




*Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa*



© WJEC CBAC Cyf. (3300N10-1)

Arholwr yn unig

**10.** *Yn y cwestiwn hwn, cewch eich asesu ar ansawdd eich trefnu, cyfathrebu a chywirdeb wrth ysgrifennu.*

Mae'r diagram yn dangos **rhan** o betryal a rhai cylchoedd unfath *(identical)* wedi'u lluniadu y tu mewn i'r petryal.
Mae'r cylchoedd yn cyffwrdd â'i gilydd neu ag ochrau'r petryal, fel sydd i'w weld yn y diagram.



*Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa*

Mae'r petryal yn mesur 30 cm wrth 1 m.
Diamedr pob cylch yw 5 cm.

Beth yw'r nifer mwyaf o gylchoedd fydd yn ffitio yn y petryal hwn?
Rhaid i'r cylchoedd gael eu trefnu yn y ffordd sydd i'w gweld uchod.
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo. [3 + 2 TCY]


© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**11.** *(a)* Ysgrifennwch y ddau rif nesaf yn y dilyniant canlynol. [2]

35, 25, 16, 8, .................... , ....................

..........................................................................................

..........................................................................................

*(b)* Darganfyddwch werth $2x + 7y$ pan fo $x = -3$ ac $y = 10$. [2]

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

**12.** Ysgrifennwch 0·4, 15% a $\frac{7}{20}$ yn y drefn esgynnol *(ascending)*.

Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo. [3]

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

..........................................................................................

.............................. .............................. ..............................

Y gwerth lleiaf ⟶ Y gwerth mwyaf


© WJEC CBAC Cyf. 

Arholwr yn unig

**13.** Helaethwch *(enlarge)* y triongl isod yn ôl ffactor graddfa 3. [2]



Arholwr yn unig

**14.** *(a)* Mae rhywun yn rholio dis teg sydd â chwe ochr.
Beth yw'r tebygolrwydd bod 4 yn cael ei ddangos ar y dis?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb. [1]

6% $\frac{1}{5}$ $\frac{1}{4}$ 6:1 $\frac{1}{6}$

*(b)* Cafodd 50 tocyn raffl eu gwerthu mewn achlysur elusennol.
Mae gan Siân siawns o 20% o ennill y wobr gyntaf.
Sawl tocyn brynodd Siân?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb. [1]

1 2 4 10 20

.............................................................................................................................................................

.............................................................................................................................................................

*(c)* Mae bag yn cynnwys cymysgedd o leiniau *(beads)* glas, gleiniau melyn a gleiniau pinc.
Mae rhywun yn cymryd un glain *(bead)* ar hap o'r bag.

Y tebygolrwydd bod y glain yn lliw pinc yw $\frac{1}{5}$.

Pa un o'r setiau canlynol o leiniau allai fod wedi bod yn y bag?
Rhowch gylch o amgylch eich ateb. [1]




.............................................................................................................................................................

.............................................................................................................................................................

.............................................................................................................................................................

.............................................................................................................................................................


© WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**15.** Mae Tîm A a Tîm B yn chwarae mewn cystadleuaeth.

Mae gan Tîm A naw pwynt yn fwy na Tîm B.
Mae gan Tîm A bedair (4) gwaith cymaint o bwyntiau â Tîm B.

Faint o bwyntiau sydd gan bob tîm? [2]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

Tîm A: .............................. o bwyntiau Tîm B: .............................. o bwyntiau

Arholwr yn unig

**16.** Mae David, Jane a Mary yn arolygwyr traeth.
Mae tri thraeth, Harlech, y Rhyl a Phorthcawl, i gyd yn mynd i gael eu harolygu ar yr un diwrnod. Maen nhw'n penderfynu rhannu'r gwaith fel bydd yr arolygwyr yn ymweld ag un traeth yr un, wedi'i ddewis ar hap.

Rhestrwch bob ffordd wahanol bosibl bydden nhw'n gallu rhannu'r gwaith.
Mae un wedi cael ei gwneud i chi. [2]

David ⟶ Harlech, Jane ⟶ Y Rhyl a Mary ⟶ Porthcawl


ⓗ WJEC CBAC Cyf.
(3300N10-1)

Arholwr yn unig

**17.** Pedrochr yw *ABCD*.




*Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa*

*(a)* Cyfrifwch beth yw gwerth $x$. [4]

..........

..........

..........

..........

..........

*(b)* Pan fydd *ABCD* yn cael ei luniadu wrth raddfa, a fyddai'r llinellau *AD* a *BC* yn baralel neu beidio?
Rhaid i chi gyfiawnhau eich ateb heb ddefnyddio lluniad wrth raddfa. [2]

..........

..........

..........

..........

Arholwr yn unig

**18.** *(a)* Amcangyfrifwch beth yw gwerth $\frac{41{\cdot}3 \times 29{\cdot}6}{198{\cdot}7}$ .

Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo. [2]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

*(b)* O wybod bod $54 \times 84{\cdot}2 = 4546{\cdot}8$, ysgrifennwch union werth pob un o'r canlynol.

(i) $540 \times 842$ = .............................................................................. [1]

(ii) $\frac{4546{\cdot}8}{5{\cdot}4}$ = .............................................................................. [1]

(iii) $\frac{454{\cdot}68}{84{\cdot}2}$ = .............................................................................. [1]



ⓗ WJEC CBAC Cyf.

Arholwr yn unig

**19.** Yn y diagram isod,
- petryal yw *ABCD*, ac
- mae *PQ* yn baralel i *AD*.




*Nid yw'r diagram wedi'i luniadu wrth raddfa*

Arwynebedd *ABCD* yw 52 cm$^2$.
Arwynebedd *APQD* yw 20 cm$^2$.

Cyfrifwch beth yw gwerthoedd $f$ a $g$.
Rhaid i chi ddangos eich holl waith cyfrifo. [5]

**DIWEDD Y PAPUR**



© WJEC CBAC Cyf. (3300N10-1)

| Rhif y Cwestiwn | Tudalen ychwanegol, os oes ei hangen. Ysgrifennwch rifau'r cwestiynau ar ymyl chwith y dudalen. |
| --- | --- |
| | |

Arholwr yn unig



© WJEC CBAC Cyf.